Proffil Swydd/Job Profile

Teitl y Swydd – Gweithiwr Iechyd & Lles Cynhwysol

Post Title - Health and Wellbeing Worker

Adran	Addysg a Hamdden
Department	Education and Leisure
Is-Adran/Adain	Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid
Division/Section	Youth Support Service
Gradd/Grade	G
Rhif y Swydd/Post Number	028751
Paratowyd Gan/Prepared by	Hefin Lloyd
Dyddiad Paratoi/Date prepared	15/10/2026

Mae diogelu yn fater i bawb. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb am amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl, gweithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi eu budd pennaf, a rhoi gwybod am unrhyw bryderon.

Safeguarding is everyone's business. All of us have a responsibility for protecting children and adults at risk, working in a way that promotes and supports their best interests and for reporting any concerns.

Prif Ddiben y Swydd

Bydd deiliad y swydd yn defnyddio ystod o fethodolegau gwaith ieuenctid i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc rhwng 16 a 25 oed y mae problemau o ran iechyd corfforol, iechyd emosiynol a llesiant yn effeithio arnynt yn aml.

Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth personol wedi'i dargedu a chymorth mynediad agored yn y gymuned, gyda'r nod o gefnogi canlyniadau gwell gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig ag iechyd, digartrefedd ymhlith pobl ifanc, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Ariennir y swydd hon gan Grant.

Prif cyfrifoldebau

1. Cynnal asesiadau, bod yn gyfrifol am achosion a gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan hwyluso ystod eang o ymyriadau wedi'u teilwra mewn perthynas ag iechyd a llesiant, ac ennyn diddordeb o'r newydd mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant.
2. Cefnogi cymorth o ran ymyrryd a methodolegau cynllunio creadigol ac arloesol a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion amrywiol a nodweddion gwarchodedig.
3. Cyfrannu at ddarparu prosiectau gan gydweithio fel y bo'n briodol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
4. Cydgysylltu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr fel y bo'n briodol a chynnig cymorth a chyngor ymarferol.
5. Sicrhau bod unigolion yn cael eu hatgyfeirio'n ddi-oed i wasanaethau arbenigol, lle bo anghenion cymhleth yn cael eu nodi.
6. Sicrhau bod unrhyw faterion diogelu neu reoli risg yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt yn unol â pholisi ac arferion ehangach y Cyngor Sir a'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid.
7. Sicrhau bod cofnodion achos yn gyfredol, yn gywir ac yn ddigon manwl, a'u bod yn cydymffurfio â rheoliadau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
8. Adnabod yr amgylchedd amlasiantaethol lle mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn gweithredu i ddynodi ac i ddiwallu anghenion pobl ifanc.
9. Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn unol â'r cyfarwyddyd, megis Cefnogaeth mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (SEET) a chyfarfodydd Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed (VAP).

Yn gyfrifol am staff/offer

Dim cyfrifoldebau rheolwr llinell.

Yn atebol i

Rheolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid - Y Tîm 16-25

Meini Prawf Hanfodol

Cymwysterau, Hyfforddiant galwedigaethol ac Aelodaeth Broffesiynol

Gradd mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol neu gymhwyster arall a gydnabyddir yn genedlaethol ym maes iechyd.

Profiad mewn lleoliadau addysg ac o weithio gydag oedolion ifanc/pobl ifanc sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.

Wedi cofrestru/gallu cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg fel Gweithiwr Ieuenctid/Gweithiwr Cymorth Ieuenctid.

Cymhwyster Cymorth Cyntaf cyfredol, 16 awr/neu'r gallu i gael un ar ôl cael y swydd

Y sgiliau sy'n ymwneud â'r swydd a Galluoedd

Y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm gydag amrywiaeth eang o unigolion ac asiantaethau i gefnogi pobl ifanc

Y gallu i gynnal sesiynau unigol a gwaith grŵp anffurfiol a ffurfiol gyda phobl ifanc i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Sgiliau TG - y gallu i ddefnyddio rhaglenni Microsoft Office a systemau cronfeydd data IMS at ddibenion cofnodi ac adrodd

Gwybodaeth

Gwybodaeth am ddeddfwriaeth a fframwaith polisi Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Gwybodaeth am Wasanaethau Iechyd ar gyfer plant/pobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin

Gwybodaeth am y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a'r Warant i Bobl Ifanc

Gwybodaeth am Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru

Profiad

Profiad amlwg a pherthnasol o waith ieuenctid

Dangos gwybodaeth benodol am waith ieuenctid cysylltiedig ag iechyd

Profiad o helpu pobl ifanc a phlant agored i niwed i gael cymwysterau cydnabyddedig

Profiad o ddarparu ymyriadau gyda phlant a phobl ifanc o ran camddefnyddio sylweddau, iechyd rhywiol ac iechyd emosiynol a llesiant

Profiad o ddiogelu a chynorthwyo plant a phobl ifanc

Profiad o waith amlasiantaeth a rhwydweithio'n effeithiol

Rhinweddau personol

Y gallu i weithio'n annibynnol gyda phlant a phobl ifanc

Y gallu i ymateb yn briodol wrth weithio mewn sefyllfaoedd heriol

Sgiliau trefnu personol a rheoli amser
Meini Prawf Dymunol
Gwybodaeth am brosesau Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a Thîm o Amgylch y Teulu Sir Gaerfyrddin.

SGILIAU IAITH A CHYFATHREBU

Er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, dyma'r lefelau iaith sydd eu hangen. Gallwn ddarparu cefnogaeth resymol i'ch helpu i gyflawni'r lefel hon.

Ansicr ynghylch eich lefel? Gwirio fy lefel iaith

Cymraeg	**Sgiliau Siarad Lefel 4**	**Sgiliau Ysgrifennu Lefel 3**
Saesneg	**Sgiliau Siarad Lefel 5**	**Sgiliau Ysgrifennu Lefel 5**
Arall		

GWIRIADAU'R GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS)

Gall fod gwiriadau DBS yn ofynnol ar gyfer rhai swyddi lle bydd angen gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Mae'r canlynol yn ofynnol ar gyfer y swydd hon

Adran A – y math o ddatgeliad **Datgeliad Manwl gan wirio'r rhestr wahardd**

Adran B – y math o weithlu **Y gweithlu plant**

Adran C – A yw'n ofyniad
ar gyfer adnewyddiadau DBS 3 blynedd neu
DBS wedi cofrestru ar y gwasanaeth diweddaru **Nage**

Y RHESWM

Bydd y swydd yn cynnwys gweithio un-ag-un gyda phobl agored i niwed.

UNRHYW WYBODAETH ARALL

Disgwylir i bob gweithiwr gynnal gwerthoedd craidd yr Awdurdod, sydd wedi'u hadlewyrchu yn ein Fframwaith Ymddygiad a Gwerthoedd, a chynnal egwyddorion Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod neu, os ydynt yn gweithio mewn ysgol, Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr ysgol, fel sy'n briodol i lefel atebolrwydd a chyfrifoldeb y swydd yn y sefydliad

Sylwer: Derbynnir sgiliau Lefel 2 ar lafar a Lefel 2 ysgrifenedig o ran yr iaith Gymraeg, yn amodol ar ymrwymiad i gael hyfforddiant a datblygiad iaith ymhellach o fewn yr amserlenni a gytunwyd

Main Purpose of Job

The post holder will utilise a range of youth work methodologies to engage with young people/adults aged 16-25 commonly affected by issues of physical health, emotional health/wellbeing.

The focus of work will be the provision of targeted personal and open access support within the community with the aim of supporting better outcomes including those related to health, youth homelessness, education, training and employment.

This post is grant funded

Key responsibilities

1. To undertake assessments, hold a caseload and work with young people, facilitating a broad range of bespoke interventions in relation to health and wellbeing, and re-engagement with Education, Employment and Training.
2. To support creative and innovative intervention support, planning methodologies designed to meet the needs of children and young people with diverse needs and protected characteristics.
3. To participate in the delivery of projects working collaboratively as appropriate with internal and external stakeholders.
4. To liaise with parents and carers as appropriate and offer practical support and advice.
5. To ensure the prompt referral of individuals into specialist services, where complex needs are identified.
6. To ensure that any safeguarding or risk management issues are identified and acted upon in accordance with YSS and wider County Council policy and practice.
7. To ensure that case records are kept up to date, are accurate and are sufficiently detailed, and comply with GDPR regulations
8. To recognise the multi-agency environment in which the Youth Support Service operates to identify and meet the needs of children and young people.
9. To attend and contribute to Youth and Progression Framework related meetings as directed, such as SEET (Supporting into Employment, Education and Training) and VAP meetings (Vulnerability Assessment Profile).

Responsible for staff/equipment

No line management responsibilities

Reporting to

Youth Support Service Manager 16-25 Team

Essential Criteria

Qualifications, Vocational training and Professional Memberships

Degree in Youth & Community Work or other nationally recognised health and wellbeing qualification at equivalent level.

Experience in education settings and working with vulnerable young people/young adults and families.

Registered/ability to register with the Education Workforce Council as a Youth Worker/Youth Support Worker.

Current 16 Hour First Aid Qualification/ or ability to attain upon entry into post

Job Related Skills and Competencies

Ability to work effectively in a team with a wide range of individuals and agencies to support young people

Ability to deliver informal and formal 1:1 and group work sessions with young people to achieve identified outcomes

IT skills – able to use office applications and IMS database systems for recording and reporting purposes

Knowledge

Knowledge of Welsh Government legislative and policy framework linked to working with children and young people

Knowledge of Health Services for children/young people in Carmarthenshire

Knowledge of Youth Work Strategy for Wales

Experience

Demonstrable and relevant experience in a youth work context

Demonstrate specific knowledge of health-related youth work

Experience of supporting vulnerable children/ young people to gain recognised outcomes

Experience of delivering substance misuse, sexual health and emotional health and wellbeing interventions with children/ young people

Experience of safeguarding and supporting children/young people

Experience of multi-agency working and effective networking

Personal qualities

Ability to work independently with children/young people

Ability to respond appropriately when working in challenging situations

Personal organisational skills and timekeeping
Desirable Criteria
Knowledge of the Youth Engagement Progression Framework and Young Person's Guarantee

LANGUAGE AND COMMUNICATION SKILLS

To meet the needs of the people who access our services, these are the language levels required. We can provide reasonable support to help you achieve this level.

Unsure what level you are? Check my language level

Welsh	**Spoken Level 4**	**Written level 3**
English	**Spoken Level 5**	**Written level 5**
Other		

DISCLOSURE AND BARRING SERVICES (DBS) CHECKS

DBS Checks may be required for certain posts which work with children and vulnerable adults. This post requires:

Section A – type of disclosure **Enhanced Disclosure with Barred list check**

Section B – workforce type **Child Workforce**

Section C – Does the post require 3 yearly DBS renewals or registration with the DBS online update service? **No**

JUSTIFICATION

This post will require one to one work with vulnerable young people.

ANY OTHER INFORMATION

Every employee is expected to uphold the authority's core values reflected within our Behaviour and Values Framework and maintain the principles of the authority's Equality and Diversity Policy or, if employed within a school, the school's Equality and Diversity Policy, as appropriate to the accountabilities and seniority of the post within the organisation.

Note: Welsh language ability at Level 2 Verbal and Level 2 Written skills accepted, subject to a commitment to further linguistic training and development within agreed time scales